JUDICIAL
APPOINTMENTS
COMMISSION

. . . . . .

Pecyn Gwybodaeth:

00382: Barnwr Cyflogedig o'r Siambr Dreth Haen Gyntaf

. . . . . .

CYNNWYS

CYFLWYNIAD **1**
YDYCH CHI'N GYMWYS? **2**
ADDASIADAU RHESYMOL **4**
DISGRIFIAD SWYDD **4**
Y BROSES DDETHOL **7**
CYSYLLTIADAU A GWYBODAETH BELLACH **9**
CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y CPB **10**
COMISIYNWYR Y CPB **12**

CYFLWYNIAD

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (CPB) yn awr yn gwahodd ceisiadau am swydd Barnwr Cyflogedig o'r Siambr Dreth Haen Gyntaf yn y strwythur tribiwnlysoedd newydd a grewyd gan y Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (y Ddeddf TLlG). Gofynnwyd i'r CPB ddewis ymgeiswyr i lenwi pedair swydd wag. Bydd dwy swydd wag wedi'u lleoli yn Birmingham, un yn Llundain ac un yng Nghaeredin. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 21 Gorffennaf 2008.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y wybodaeth y bydd ei hangen arnoch am y penodiadau. Mae'n cynnwys y meini prawf cymhwysedd a'r disgrifiad swydd. Mae hefyd yn disgrifio'r broses ddethol y bydd y CPB yn ei dilyn, gyda dyddiadau perthnasol a chyngor am sut i baratoi ar gyfer camau gwahanol y broses hon.

Cyn y gellir ystyried eich penodi, rhaid i chi fodloni rhai gofynion cymhwysedd. Mae'n rhaid i'r CPB hefyd asesu eich cymeriad. Cyn gwneud cais dylech ddarllen y gofynion hyn a'r canllawiau y mae'r CPB yn eu defnyddio i asesu cymeriad. Gellir gweld y rhain ar ein gwefan (www.judicialappointments.gov.uk) ynghyd â braslun o dtelerau ac amodau'r gwasanaeth a'r telerau penodi ar gyfer y swydd hon.

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol annibynnol sy'n dewis ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol. Bydd yn gwneud hynny ar sail teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, o blith y dewis ehangaf o ymgeiswyr cymwys.

YDYCH CHI'N GYMWYS?

I fod yn gymwys i'ch penodi'n Farnwr Cyflogedig o'r Siambr Dreth Haen Gyntaf, rhaid i chi fodloni'r gofynion canlynol.

Gofyniad statudol

Penodir Barnwyr o'r Siambr Dreth Haen Gyntaf gan yr Arglwydd Ganghellor dan baragraff 1 (1) Atodlen 2 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

Er mwyn i unigolyn fod yn gymwys i'w benodi dan baragraff 1(1), rhaid iddo –

(a) fodloni'r amod cymhwysedd ar gyfer penodiad i swydd farnwrol ar sail 5 mlynedd,
(b) bod yn adfocad neu fargyfreithiwr yn yr Alban ers pum mlynedd o leiaf,
(c) bod yn fargyfreithiwr neu dwrnai yng Ngogledd Iwerddon ers pum mlynedd o leiaf, neu
(d) ym marn yr Arglwydd Ganghellor, bod wedi ennill profiad ym maes y gyfraith sy'n gwneud yr unigolyn yn addas i'w benodi fel petai'r unigolyn wedi bodloni unrhyw un o baragraffau (a) i (c).

Yr 'amod cymhwysedd ar gyfer penodiad i swydd farnwrol' yw:

- bod â chymhwyster fel bargyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr neu'n dwrnai yn Uwch Lys (Goruchaf Lys) Cymru a Lloegr
- bod wedi ennill profiad ym maes y gyfraith yn ystod y cyfnod cymhwyso gofynnol

Mae ystyr "ennill profiad ym maes y gyfraith" wedi'i bennu yn adran 52 (2) i (5) y Ddeddf uchod, ac mae'n ymwneud â chyfnod mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r gyfraith, sy'n cynnwys.

(a) cyflawni swyddogaethau barnwrol unrhyw lys neu dribiwnlys;
(b) gweithredu fel cyflafareddwr;
(c) ymarfer fel cyfreithiwr neu'n cael ei gyflogi fel un;
(d) cynghori (yn ystod cyfnod ymarfer neu gyflogaeth fel cyfreithiwr ai peidio) ar ddefnyddio'r gyfraith;
(e) cynorthwyo (yn ystod cyfnod ymarfer o'r fath ai peidio) pobl sy'n ymwneud ag achosion i benderfynu ar faterion sy'n codi dan y gyfraith;
(f) gweithredu (yn ystod cyfnod ymarfer o'r fath ai peidio) fel cyfryngwr mewn cysylltiad ag ymgais i benderfynu ar faterion sy'n destun achos, neu a allai fod yn destun achos os na chânt eu penderfynu;
(g) drafftio (yn ystod cyfnod ymarfer o'r fath ai peidio) dogfennau a fwriedir i effeithio ar hawliau neu rwymedigaethau pobl;
(h) dysgu neu ymchwilio'r gyfraith;
(i) unrhyw weithgaredd sydd, ym marn y sawl sy'n gwneud y penderfyniad perthnasol, o natur gyffredinol debyg i weithgaredd yn unrhyw un o'r paragraffau (a) i (h)

Oedran

Does dim uchafswm nac isafswm oedran ar gyfer ymgeiswyr, ar wahân i'r oedran ymddeol statudol, sef 70. Rhaid i oedran unigolyn a benodir yn Farnwr y Siambr Dreth Haen Gyntaf ganiatáu cyfnod rhesymol o wasanaeth cyn ymddeol, sef tua tair blynedd fel arfer.

Cenedligrwydd

Rhaid i chi lenwi datganiad o'ch cenedligrwydd yn y Ffurflen Gais. I fod yn gymwys ar gyfer y swydd hon, rhaid i chi fod yn ddinesydd:

- y Deyrnas Unedig; neu
- un o wledydd eraill y Gymanwlad; neu
- Weriniaeth Iwerddon.

Cymeriad

Mae'n ofynnol i'r CPB drwy statud benodi unigolion o gymeriad da yn unig. Er mwyn gwneud yr asesiadau hyn, rydym wedi datblygu Canllawiau ar Gymeriad Da sydd ar gael ar ein gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk. Hefyd, gallwch ysgrifennu atom i ofyn am gopi (gweler adran 'Cysylltiadau a Gwybodaeth Bellach' y Pecyn Gwybodaeth hwn i gael ein manylion cyswllt).

Mae'r Canllawiau ar Gymeriad Da yn rhoi rhyw syniad i chi ynghylch a oes unrhyw beth yn eich ymddygiad yn y gorffennol neu eich amgylchiadau presennol a allai effeithio ar eich cais am benodiad barnwrol. Dylech eu darllen yn ofalus cyn llenwi'r Ffurflen Gais.

Cymeriad da – cwestiynau a datganiadau

Mae'n ofynnol i chi ateb nifer o gwestiynau yn y Ffurflen Gais sy'n ymwneud â chymeriad da a rhaid i chi wneud datganiadau priodol yn ôl y gofyn.

Nid yw ymgeiswyr am benodiadau barnwrol yn cael eu gwarchod gan adrannau 4(2) a 4(3) Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Felly, dylid datgan yn ysgrifenedig unrhyw euogfarnau a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai sydd wedi darfod dan y Ddeddf honno (Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975). Rhaid i chi roi manylion pob trosedd yr ydych wedi eich cael yn euog ohono neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad ag ef. Dylai'r manylion gynnwys natur pob trosedd, dyddiad yr euogfarn neu'r rhybuddiad, a'r gosb a gafwyd.

Lle bo achos o unrhyw fath yn yr arfaeth, dylech roi manylion y trosedd yr ydych wedi'ch cyhuddo ohono neu'r broses ddisgyblu yr ydych yn rhan ohoni ac, os yw hynny'n hysbys, dyddiad gwrando'r achos neu'r cam gweithredu. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am ganlyniad unrhyw achos neu gam gweithredu a ddaw i ben wrth i'ch cais gael ei ystyried. Yn yr un modd, os cewch eich cyhuddo o unrhyw drosedd neu os cymerir camau yn eich erbyn ar ôl cyflwyno'ch cais, dylech roi gwybod i ni ar unwaith (gweler adran 'Cysylltiadau a Gwybodaeth Bellach' y Pecyn Gwybodaeth hwn).

Ar gyfer pon un, darparwch gymaint ag y bo modd o fanylion a nodwch a oes unrhyw ffactorau lliniarol y dylai'r CPB, yn eich barn chi, eu hystyried wrth asesu eich cymeriad da.

Archwiliadau cymeriad da

Bydd y CPB hefyd yn cynnal archwiliadau o'r holl ymgeiswyr y mae'n bwriadu eu hargymell ar gyfer eu penodi. Darperir rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau hyn ar wahân i'r ymgeiswyr perthnasol.

Os byddwch yn peidio â datgan unrhyw faterion a ddaw i'r golwg yn sgil yr archwiliadau hyn, gall fod yn niweidiol i ganlyniad eich cais.

Anghymhwyso

Dylech nodi bod Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 yn berthnasol i'r swydd hon.

Gwaith Cyflogedig Rhan Amser

Mae patrymau gwaith gwahanol o weithio rhan amser dim llai nag 80% ar gael ar gyfer pob un o'r pedair swydd yn yr ymgyrch hon.

ADDASIADAU RHESYMOL

Mae'r CPB wedi ymrwymo i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol sy'n ofynnol i sicrhau y gallwch gyfrannu'n deg at y broses ddethol. Mae'r Ffurflen Gais yn gofyn i chi nodi unrhyw drefniadau ac addasiadau y bydd eu hangen arnoch o bosibl. Ystyrir y ceisiadau ar sail achosion unigol ac ni ddefnyddir y wybodaeth a roddir i wneud penderfyniadau wrth ddethol.

Os cewch eich argymell ar gyfer y swydd, ystyrir addasiadau rhesymol os oes gennych anabledd yn ôl ystyr y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, fel y gwneir ar gyfer barnwyr sy'n ymarfer ac sy'n magu nam neu gyflwr iechyd hirdymor. Bydd unrhyw addasiadau rhesymol i'ch galluogi i dderbyn y swydd yn cael eu trafod ar wahân gyda chi gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ar ôl i'r CPB wneud ei argymhelliad.

DISGRIFIAD SWYDD

Bydd y Siambr Dreth Haen Gyntaf yn un o nifer o siambrau tribiwnlys yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf a sefydlir dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Bydd Barnwyr ac Aelodau Eraill o'r Siambr Dreth Haen Gyntaf yn clirio'r achosion ar draws yr awdurdodaethau treth uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n cael eu trin ar hyn o bryd gan Gomisiynwyr Cyffredinol Treth Incwm, y Comisiynwyr Arbennig, y Tribiwnlysoedd TAW a Thollau, a Thribiwnlys Adran 706. Caiff swyddi'r Comisiynydd Cyffredinol Treth Incwm a Chlerc y Comisiynydd Cyffredinol Treth Incwm eu diddymu pan drosglwyddir eu swyddogaethau i'r Siambr Dreth newydd.

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i darparu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

SWYDD BARNWR CYFLOGEDIG O'R SIAMBR DRETH HAEN GYNTAF

Diben y swydd

1. Diben y swydd yw ystyried achosion apeliadau treth sy'n cynnwys penderfyniadau gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yn y gwrandawiad ac wrth wneud penderfyniadau wedi hynny.

Cyffredinol

2. Bydd y Siambr Dreth yn ffurfio rhan o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf newydd mewn strwythur tribiwnlysoedd dwy haen. Rhagwelir y bydd Barnwyr Apeliadau Treth Cyflogedig yn gwrando amrywiaeth o achosion treth uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Prif weithgareddau

3. Prif weithgareddau Barnwr Treth Cyflogedig o'r Siambr Dreth Haen Gyntaf yw:

<u>Paratoi ar gyfer gwrandawiadau a rheoli achosion</u>

- paratoi ar gyfer gwrandawiadau drwy ddarllen a chymhathu papurau mewn apêl neu gais cyn i'r gwrandawiad ddechrau, gan gynnwys astudio dogfennau ac adroddiadau ysgrifenedig;

- rhoi arweiniad a chyfarwyddyd mewn apeliadau, a allai fod yn eithaf manwl, a delio â materion yng nghwrs achos

Llywyddu dros wrandawiadau

- llywyddu dros apeliadau neu geisiadau fel aelod unigol neu fel rhan o banel, gyda disgwyl iddynt gadeirio'r panel fel arfer

- rheoli (yn unol â'r gyfraith a'r ymarfer perthnasol) y modd y cynhelir achosion

- sicrhau ei bod yn bosibl i'r partïon, boed y rheiny'n bresennol neu wedi'u cynrychioli ai peidio, gyflwyno eu hapêl neu eu cais, a sicrhau y caiff y rheiny eu hystyried yn y modd llawnaf a thecaf bosibl. Mae hyn yn cynnwys, pan fo'n briodol, cymryd yr awenau yn y gwrandawiad er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phob mater perthnasol, boed y partïon wedi'u codi'n benodol ai peidio.

- hybu'r ffordd gyflymaf o ymdrin â'r busnes sy'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder.

- cynnal awdurdod ac urddas y Tribiwnlys

- cadw cofnod llawn a chywir o'r dystiolaeth

- penderfynu ar faterion o gyfraith a threfniadaeth a allai godi yn ystod apêl

Penderfynu ar apeliadau

- canfod y ffeithiau, cymhwyso'r gyfraith sy'n berthnasol a chyflwyno penderfyniad ysgrifenedig, rhesymegol, gan gyfeirio at gyfraith achos a chanllawiau fel y bo'n briodol. Cai penderfyniad ei ddatgan ynghyd â rhesymau dros y penderfyniad

- cyflwyno unrhyw gyfarwyddiadau sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi'r penderfyniad ar waith

- cyrraedd penderfyniadau ar geisiadau ac apeliadau ar lafar ac ar bapur

- cymryd yr awenau neu'r cyfrifoldeb llwyr dros y penderfyniad a thros ddrafftio'r penderfyniad

Gweithgareddau eraill

- sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gyfraith berthnasol, yn ogystal â'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r Siambr Dreth

- cymryd rhan yn rhaglenni gwerthuso a hyfforddi'r Tribiwnlys yn ôl cyfarwyddyd Llywydd y Siambr

- cynghori ar ffurflenni, rheolau a deddfwriaeth y dyfodol os bydd Llywydd y Siambr yn gofyn o bryd i'w gilydd

- cynorthwyo gyda hyfforddiant Aelodau a Barnwyr Tribiwnlys sy'n Derbyn Ffi, a darparu arweiniad iddynt a allai gynnwys golygu a chyhoeddi llenyddiaeth gyfreithiol ei natur.

Awdurdodaeth

4. Mae'r hawliau apelio sy'n ymwneud â threth uniongyrchol ac anuniongyrchol wedi'u hamlinellu yn Neddf Rheoli Trethi 1970 ac yn Neddf TAW 1994, yn ôl eu trefn, ac mae materion eraill sy'n ymwneud â threth anuniongyrchol hefyd wedi'u hamlinellu yn Neddf Cyllid 1994.

5. Bydd y Tribiwnlys yn delio ag apeliadau gan y trethdalwr sy'n ymwneud ag asesiadau a phenderfyniadau gan CThEM, yn ogystal â cheisiadau gan CThEM. Bydd achosion yn amrywio o rai cymharol syml, lle mae'r ymarfer yn ymwneud yn bennaf â chanfod ffeithiau, i achosion eithaf technegol a chyfreithiol. Gall achosion bara o rai munudau neu oriau i nifer o ddiwrnodau, a gall rhai achosion cymhleth bara nifer o wythnosau. Byddai disgwyl i Farnwyr Treth Cyflogedig wrando achosion yr apeliadau mwyaf cymhleth.

6. Ar ochr treth uniongyrchol, bydd achosion o'r fath yn ymwneud â materion sy'n codi dan y drefn hunanasesu, materion sy'n ymwneud â threthi personol, busnes a chyfalaf, ac apeliadau yn erbyn cosbau cydymffurfio. Mewn treth anuniongyrchol, bydd y materion yn ymwneud ag achosion cydymffurfio, apeliadau yn erbyn asesiadau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar atebolrwydd, ac anghydfodau ynghylch dosbarth.

7. Bydd un o Lywyddion y Siambr Dreth yn llywyddu gwaith yr awdurdodaeth hon.

Lleoliad

8. Gall apeliadau i'r Tribiwnlys darddu o unrhyw ardal yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Bydd y swyddi Barnwr Treth Haen Gyntaf Cyflogedig wedi'u lleoli yn Birmingham, Llundain a Chaeredin, a dyna lle byddai'r rhan fwyaf o achosion yn digwydd. Fodd bynnag, gellir gwrando achosion mewn rhwydwaith eang o ganolfannau gwrandawiadau ledled y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth Bellach

Mae ar y Weinyddiaeth Cyfiawnder angen ymrwymiad gan ymgeiswyr llwyddiannus i fynychu hyfforddiant yn ystod mis Ionawr a Chwefror 2009, cyn lansio'r Siambr Dreth newydd. Bydd yr ymrwymiad sy'n ofynnol yn dibynnu ar sgiliau a chefndir yr ymgeisydd llwyddiannus, ond mae'n debygol y bydd angen ymrwymiad o 2 ddiwrnod o leiaf.

Gellir cael mwy o wybodaeth am Delerau ac Amodau'r swydd hon, a nodyn am awdurdodaeth Siambr Dreth y Tribiwnlys Haen Gyntaf, ar wefan y CPB yn www.judicialappointments.gov.uk.

Y BROSES DDETHOL

Ffurflen gais

Mae manylion y nodweddion a'r galluoedd a ddefnyddir i'ch asesu yn y Ffurflen Gais. Gallwch ddefnyddio holl ystod eich gwaith a'ch profiad personol i ddangos y nodweddion a'r galluoedd hyn, gan gynnwys, er enghraifft, gwaith gwirfoddol neu unrhyw gyhoeddiad yr ydych wedi cyfrannu ato. Byddwch yn benodol wrth roi gwybodaeth.

Amserlen

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau	21 Gorffennaf 2008
Dyddiad posibl ar gyfer y prawf cymhwyso	2 Medi 2008
Dyddiadau posibl ar gyfer y diwrnodau dethol	10 -16 Hydref 2008

Tynnu rhestr fer

Cam cyntaf y broses yw prawf cymhwyso. Bydd ymgeiswyr yn gallu sefyll y prawf mewn un o bedwar lleoliad. Gwahoddir pob ymgeisydd i'r prawf cymhwyso. Disgwylir i chi sicrhau eich bod ar gael ar un diwrnod a ddewisir ar gyfer y prawf. Cewch nodi'r lleoliad o'ch dewis ar y Ffurflen Gais. Byddwn yn ystyried hyn ond ni allwn warantu y bydd lleoedd ar gael.

Bydd ymgeiswyr yn yr ymgyrch hon yn sefyll yr un prawf ag ymgeiswyr yn yr ymgyrch Barnwyr sy'n Derbyn Ffi y Siambr Dreth Haen Gyntaf, a gynhelir ar yr un pryd. Os ydych chi'n ymgeisydd yn yr ymgyrch Barnwr sy'n Derbyn Ffi a'r ymgyrch Barnwr Cyflogedig, dim ond unwaith y bydd angen i chi sefyll y prawf.

Am ragor o wybodaeth am y prawf, ymwelwch â'n gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk.

Os daw'r CPB i'r casgliad bod materion sy'n ymwneud â chymhwysedd neu gymeriad sy'n golygu na ellir bwrw ymlaen â'ch cais, byddwn yn rhoi gwybod i chi ar ôl y prawf a chyn unrhyw ddiwrnod dethol.

Ar ôl y prawf, os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddwch yn cael eich gwahodd i ddiwrnod dethol. Anfonir manylion pellach gyda'r gwahoddiad i chi fynychu.

Geirdaon

Gallwn geisio gwybodaeth gan bobl sydd mewn sefyllfa dda i roi sylwadau ar sut yr ydych chi'n bodloni'r nodweddion a'r galluoedd. Cysylltir â chanolwyr fel arfer cyn y cyfweliad ac fe'u hanogir i ddefnyddio deunydd gwerthuso os yw ar gael. Fel arfer bydd y deunydd a ddarperir gan y canolwyr yn cyfrannu at benderfyniadau'r panel a phenderfyniadau dethol terfynol Comisiynwyr.

Canolwyr a enwebir gan yr ymgeiswyr

Gwahoddir chi i enwebu hyd at dri o ganolwyr sy'n eich adnabod yn dda naill ai'n bersonol neu'n broffesiynol.

Canolwyr a enwebir gan y CPB

Mae'n bosibl hefyd y bydd y CPB yn gofyn am eirdaon gan y rhai a nodir yn adran 'Canolwyr a Enwebir gan y CPB' y pecyn hwn.

Darparwch enw, teitl, swydd a chyfeiriad eich canolwyr proffesiynol a barnwrol perthnasol. Gallwch ddweud wrthym hefyd os nad ydych yn dymuno i ni gysylltu â'ch canolwr proffesiynol perthnasol ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i chi roi rhesymau. Os nad ydych yn dal swydd

farnwrol ar hyn o bryd a heb gynnwys eich canolwr proffesiynol perthnasol, mae'n rhaid i chi awgrymu canolwr arall sy'n gyfarwydd â'ch gwaith.

Gwrthdaro rhwng buddiannau

Rhestrir y Comisiynwyr Penodiadau Barnwrol yng nghefn y pecyn hwn. Ni ddylech enwebu Comisiynydd fel canolwr. Dylech nodi yn y Ffurflen Gais hefyd os ydych yn perthyn mewn unrhyw ffordd i unrhyw un o'r Comisiynwyr neu'n hysbys iddynt, a rhoi manylion.

Canlyniad yr ymarfer dethol

Caiff rhestrau ar wahân eu llunio ar gyfer pob swydd wag, ac wedyn gwneir argymhellion ar gyfer penodi ar sail teilyngdod gan ddefnyddio'r rhestrau, a chan ystyried unrhyw ddewis a fynegwyd gan y rheini sy'n ymgeisio ar gyfer mwy nag un swydd wag. Fe'ch hysbysir am ganlyniad eich cais drwy lythyr.

Os byddwch yn aflwyddiannus, gallwch ofyn am esboniad ysgrifenedig. Dylech wneud y cais hwn o fewn 6 wythnos i ddyddiad y llythyr a oedd yn eich hysbysu na fuoch yn llwyddiannus. Ceisiwn ymateb i'ch cais o fewn pedair wythnos waith.

Archwiliad meddygol

Efallai y gofynnir i chi gael archwiliad meddygol cyn i chi ddechrau ar y gwaith.

Y drefn gwyno

Os byddwch yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, dylech gyfeirio at drefn gwyno gyhoeddedig y CPB, sydd ar gael oddi ar ein gwefan, neu ar ffurf copi caled ar gais.

CYSYLLTIADAU A GWYBODAETH BELLACH

Cael ffurflen gais

Mae'r holl wybodaeth ynghylch sut i wneud cais ar gyfer yr ymarfer dethol hwn ar gael yn (ymarferion dethol cyfredol).

Gellir derbyn y Ffurflen Gais ar gyfer yr ymarfer dethol hwn ar ffurf electronig trwy ei llwytho oddi ar y wefan.

Cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol (GCPB) yn y CPB os ydych am gael copi caled o'r Ffurflen Gais neu'r Pecyn Gwybodaeth, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cymhwysedd neu ynghylch cyflwyno'ch cais.

Os bydd angen y ffurflen a/neu'r pecyn arnoch mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn Braille, cysylltwch â'r tîm GCPB.

Cydnabod eich cais

Dylech dderbyn cydnabyddiaeth o'ch cais cyn pen 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad y derbynnir eich cais. Os na chewch chi gydnabyddiaeth, dylech gysylltu â'r tîm GCPB dros y ffôn neu'r e-bost.

Manylion cyswllt

1. GCPB

Cyfeirnod: 00382 (Defnyddiwch y cyfeirnod hwn ar bob gohebiaeth)

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol/Judicial Appointments Commission
2nd Floor, Steel House
11 Tothill Street
Llundain
SW1H 9LH

DX 149822 WESTMINSTER 6

E-bost: jaas@jac.gsi.gov.uk
*__Ffôn:__ 020 7210 0123

2. Tîm yr Ymarfer Dethol:

Andrew Digby	*020 7210 0341	Rheolwr yr Ymarfer Dethol
Ashlee Brett	*020 7210 0515	Arweinydd Tîm

E-bost: Ashlee.Brett@jac.gsi.gov.uk

*Ffacs: 020 7210 0300

3. Cyfarwyddwr:

David Truscott *020 7210 0567

***Noder, o 11 Awst 2008 ymlaen, bydd cod deialu safonol y CPB yn newid i 0203 334 (bydd pedwar digid olaf pob estyniad yn aros yr un fath ag a nodir uchod).**

CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y CPB

Mae'n bosibl y bydd y CPB hefyd yn gofyn am eirdaon o'r categorïau a restrir isod.

Canolwyr Barnwrol

Os ydych yn dal swydd farnwrol nad yw ar y rhestr hon, cysylltwch â'r CPB er mwyn inni allu ystyried pwy ddylai gael ei enwebu fel eich canolwr barnwrol.

Os ydych yn eistedd ar Dribiwnlys ar wahân i Gomisiynwyr Cyffredinol Treth Incwm, Llywydd y Tribiwnlys neu rywun cyfatebol.

Os ydych chi'n Gomisiynydd Cyffredinol Treth Incwm, Cadeirydd eich Pwyllgor Ymgynghorol lleol.

Os ydych chi'n Glerc i Gomisiynwyr Cyffredinol Treth Incwm, Cadeirydd yr Adran Comisiynwyr Cyffredinol lle byddwch yn gweithio amlaf.

Os ydych yn Gofiadur, y Barnwr Preswyl, y Barnwr Sifil Dynodedig neu'r Barnwr Teulu Dynodedig yn y llys(oedd) lle'r ydych yn eistedd amlaf.

Os ydych yn Farnwr Costau neu'n Ddirprwy Farnwr Costau, yr Uwch Farnwr Costau.

Os ydych yn Farnwr Rhanbarth neu'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth, y Barnwr Sifil Dynodedig lleol.

Os ydych chi'n Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), neu'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), yr Uwch Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon).

Os ydych yn Siryf, y Prif Siryf (yr Alban yn unig).

Canolwr proffesiynol

Os ydych yn dwrnai, eich partner rheoli neu bartner ecwiti perthnasol.

Os ydych yn fargyfreithiwr, Pennaeth eich Siambrau.

Os ydych yn gyflogedig, eich rheolwr llinell neu gyfatebol.

Os ydych yn adfocad, Deon Ffacwlti'r Adfocadau (yr Alban yn unig).

COMISIYNWYR Y CPB

Cadeirydd y CPB

Y Farwnes Usha Prashar CBE

Aelodau

Y Fonesig Lorna Boreland-Kelly DBE

Yr Athro Fonesig Hazel Genn DBE CF

Mr Ustus John Goldring

Yr Arglwyddes Ustus Heather Hallett DBE

Ei Hanrhydedd Y Barnwr Frances Kirkham

Syr Geoffrey Inkin OBE

Mr Edward Nally

Ms Sara Nathan OBE

Y Barnwr Rhanbarth Charles Newman

Ei Anrhydedd Y Barnwr David Pearl

Mr Francis Plowden

Ms Harriet Spicer

Mr Jonathan Sumption OBE CF

Yr Arglwydd Ustus Roger Toulson